Ebrill 2025

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd	Cydlynydd Marchnata a chyfathrebu
Yn atebol i	Cyfarwyddwr
Cyflog	£28,500
Oriau Gwaith	37 awr yr wythnos
Cytundeb	Cytundeb blwyddyn, gyda'r bwriad o ymestyn yn ddibynnol ar gyllid
Lleoliad	Hyblyg

Mae'r swydd hon yn gyffrous ac yn galw am unigolyn hyblyg, brwdfrydig a hyderus sy'n gallu meistroli nifer o elfennau amrywiol sydd ynghlwm â gwaith Mentrau Iaith Cymru. Mae Marchnata yn elfen greiddiol o'r gwaith.

Bydd gofyn gallu teithio i amryw o leoliadau ledled Cymru yn ôl y galw.

Amdanom ni

Mae Mentrau Iaith Cymru (MIC) wedi bod yn gweithredu fel corff canolog i gefnogi gwaith y rhwydwaith o Fentrau Iaith lleol ers 1999 trwy amryw o weithgareddau. Ein prif nod yw darparu cyfleoedd i rwydweithio, roi llais i'r rhwydwaith, datblygu prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n caniatáu i'r rhwydwaith weithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, a chynnig cefnogaeth ac arweiniad i'r Mentrau Iaith ar faterion amrywiol, gan gynnwys polisi mewnol, staffio, ymchwil a chyfleoedd datblygu yn y maes cynllunio iaith.

Rydym yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn chwarae rôl bwysig o fewn y 3ydd sector.

Prif Bwrpas y Swydd

Gweithio fel rhan o dîm bychan sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Iaith ledled Cymru. Cydlynu cefnogaeth i'r rhwydwaith o Fentrau Iaith a chydlynu prosiectau sy'n ychwanegu gwerth i waith y Mentrau wrth iddynt gryfhau'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar weithredu rhaglen marchnata a chyfathrebu ar gyfer y rhwydwaith o Fentrau Iaith.

Prif Ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Arwain ar lunio Cynllun Marchnata a chyfathrebu ar gyfer y rhwydwaith o Fentrau Iaith gan gydlynu mewnbwn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr, staff MIC a staff y Mentrau.
- Gweithredu Cynllun Marchnata blynyddol fydd yn cynnwys elfennau o hyrwyddo'r rhwydwaith a gwaith y Mentrau, a chydlynu ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol
- Hwyluso llif cyfathrebu rhwng MIC a'r rhwydwaith o Fentrau Iaith, gan gynnwys cydlynu'r Bwletin misol
- Cadw gwybodaeth a delwedd gyfredol am waith MIC a'r rhwydwaith ar wefan Mentrau Iaith Cymru
- Rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Mentrau Iaith Cymru
- Cynorthwyo a chefnogi'r Mentrau wrth iddynt farchnata eu gwaith
- Cynorthwyo'r rhwydwaith i uchafu cyrhaeddiad eu gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol
- Datblygu partneriaethau i hyrwyddo'r Gymraeg
- Cydgynllunio a chydlynu ymgyrchoedd marchnata a chenedlaethol yn unol â'r Cynllun blynyddol
- Mewnbynnu i geisiadau ariannol posib

Dyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol

- Cefnogi gwaith swyddogion eraill MIC i gyflawni gweithgareddau a phrosiectau amrywiol
- Cyfrannu i adroddiadau ar y gwaith a gyflawnwyd a'i effaith er mwyn adrodd i Fwrdd Cyfarwyddwyr MIC a Llywodraeth Cymru
- Mynychu digwyddiadau MIC
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant a chyfarfodydd perthnasol
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau a gofynion eraill rhesymol

Sgiliau / Profiad hanfodol

- Profiad o weithio yn y maes marchnata a chyfathrebu
- Yn drefnus ac effeithiol, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol o safon uchel
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol gan ddatblygu syniadau a chynlluniau newydd o dan arweiniad
- Sgiliau cyfrifiadurol da
- Yn rhugl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) - ar lafar ac ysgrifenedig
- Y gallu i gydweithio ag eraill ac ennyn diddordeb a brwdfrydedd
- Dealltwriaeth o waith MIC, Mentrau Iaith a phartneriaid sy'n ymwneud â'r maes hyrwyddo'r Gymraeg

Sgiliau / profiad dymunol

- Hyfforddiant neu brofiad o gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol
- Hyfforddiant neu brofiad o reoli gwefannau
- Hyfforddiant neu brofiad mewn dylunio digidol
- Hyfforddiant neu brofiad o gasglu, coladu a chyflwyno data
- Profiad a dealltwriaeth o waith y trydydd sector yng Nghymru

- Profiad o gynllunio prosiectau a llunio ceisiadau grant

Diwedd.